**CYFARFOD:** **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

**DYDDIAD:** **24 Mawrth 2023**

**PWNC:** **DATGANIAD POLISI TÂL 2023/24**

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

I fabwysiadu datganiad polisi tâl Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2023/24.

---

1. **Rhagarweiniad**

i) Yn unol â chynnwys y Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae'n ddyletswydd statudol ar i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu datganiad polisi tâl yn flynyddol, fel sail i'w drefniadau ar gyfer cyflogi staff. Mae'r gofyn hwn yn berthnasol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

ii) Bu i'r Cyd-Bwyllgor fabwysiadu'r polisi tâl yn gyntaf yn ôl ym Mehefin 2022. Wedi adolygu'r ddogfen honno, daethpwyd i'r casgliad nad oes yna newidiadau i gynnwys y polisi ar hyn o bryd. Cynigir felly bod y datganiad polisi tâl atodol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer 2023/24.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd fabwysiadu'r datganiad polisi tâl atodol ar gyfer 2023/24.**

**SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**

Fel nodir yn yr adroddiad fod gofyn statudol ar y Cyd Bwyllgor Corfforedig i fabwysiadau ei Datganiad Polisi Tal ei hun. Mae'n ofyn statudol hefyd fod y Cyd Bwyllgor yn mabwysiadu Datganiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

**Swyddog Cyllid Statudol**

Rwy'n fodlon fod y Polisi Tâl a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y CBC yn gyson gyda'r Gyllideb ar gyfer 2023/24 ac yn cyfarch y gofynion statudol